# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
# COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS Iau**
**15 Hydref 2020**
**AM 7.30 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, S Jones, E Huws, E Law-Shui Nicholson, R G Parry, G Parry, J Earnshaw, G Owen (Clerc), | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng D Rees (Cyngor Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 09.09.20 - Cyng E Huws yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Maes chwarae CCTV** – Bydd y Clerc yn symud ymlaen gyda cais am un camera arall |
| **4.2** | **Llwybrau Cyhoeddus** – Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi cynnig argraffu mapiau ar faint A1. Bydd yn trefnu i'r rhain gael eu hanfon at y Cyng E Law-Shui Nicholson |
| **4.3** | **Cyflwyniadau aelodau**- Dywedodd y Cynghorydd Pat Roberts fod ganddi sawl syniad i'r cyngor weithio arnyn nhw a dywedodd y Cynghorydd John Earnshaw fod gan Chwaraeon Cymru arian ar gael ar gyfer prosiectau sy'n addas i bobl dros 60 oed |
| **4.4** | **Y Fynwent** - Mae tua 6 metr ar ôl yn y fynwent cyn agor y rhan newydd. Cytunwyd y bydd angen llwybr troed yng nghanol yr ardal newydd. Bydd is-bwyllgor y fynwent yn cyfarfod ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf |
| **4.5** | **Sul y Cofio**- Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ni fydd y cyngor yn cynnal gwasanaeth llawn wrth y gofeb eleni. Dywedodd y Cadeirydd y bydd ef a'i wraig y Cynghorydd Pat Roberts am gosod torch ar ran y cyngor |
| **4.6** | **Seddi gwag**- mae'r Clerc wedi derbyn un cais oddiwrth Mrs Heledd Eddings. Cytuniwyd I dderbyn y cais |
| **4.7** | **Adroddiad Playsafety** – Mae y Cadeirydd wedi gofyn I cwmni G L Jones am pris I trin y maes chwarae a gosod matiau newydd. |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Gweler 4.5 a 4.7 |
| | |
| | **Llofnod…….Cadeirydd**<br>**11.11.20** |

| | |
|---|---|
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| | |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Heledd Eddings – sedd wag – gweler 4.6 |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | **Cysgodfannau bws**- gofynwyd l'r Clerc cael pris am un cysgodfan newydd |
| **8.2** | **Gwirfoddolwyr Iorwerth Arms**- Bydd y Cynghorydd E Law-Shui Nicholson yn anfon dogfen at aelodau'r cyngor ynghylch sefydlu system o wirfoddolwyr |
| **8.3** | **Rhodd**- cario ymlaen l'r cyfarfod nesaf |
| **8.4** | **Adolygu costau y fynwent**- bydd yr Is-Pwyllgor yn ail edrych ar y costau |
| **8.5** | **Adolygu cyflog y Clerc** – Cytunwyd i gynyddu cyflog y Clerc 10% |
| **8.6** | **Parcio rhwng y Iorwerth a'r hen bost** – soniodd Cyng Sioned Jones am ceir yn parcio ar y palmant rhwng y Iorwerth a'r hen bost. Hefyd soniodd am sheet metal ar y palmant rhwng y Iorwerth a'r hen bost. Cynigiodd y Cynghorydd R G Parry edrych i mewn i'r materion |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **9.1** | N Jones £1950.00 (£1520 torri gwair y fynwent a'r maes chwarae am y flwyddyn, hefyd £430 am torri gwair Capel Salem) |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | **Llofnod…….Cadeirydd**<br>**11.11.20** |